Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Mawrth 2018

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 26, 26A a 26B – Gofyniad am Asesiadau Effaith ar Gyfiawnder (adran 110A o'r Ddeddf)

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

2. Mae'r adroddiad yn argymell diwygiadau i Reolau Sefydlog 26, 26A a 26B – ar gyfer Biliau Cyhoeddus, Biliau Preifat a Biliau Hybrid – i ddarparu ar gyfer gofyniad newydd am Asesiadau Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer holl Filiau'r Cynulliad (adran 110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf)). Mae'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd i'w gweld yn Atodiad B.

**Y cefndir**

3. Cafodd adran 110A o'r Ddeddf ei mewnosod gan adran 11 o Ddeddf Cymru 2017, a bydd yn dod i rym ar y Prif Ddiwrnod Penodedig, sef 1 Ebrill 2018, drwy Orchymyn Cychwyn. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol y cyhoeddir Asesiad Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer pob Bil Cynulliad ar adeg ei gyflwyno neu cyn hynny. Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wneud datganiad ysgrifenedig yn nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil. O dan y Ddeddf, rhaid cynnwys y ddarpariaeth newydd yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Rhaid i'r Rheolau Sefydlog hefyd bennu ffurf yr Asesiad Effaith ar Gyfiawnder a'r dull ar gyfer ei gyflawni.

4. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried sut y dylid adlewyrchu'r gofyniad statudol newydd hwn yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad ynghylch deddfwriaeth, gyda'r newidiadau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018, er mwyn i dimau Biliau allu paratoi Asesiadau Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer Biliau a gaiff eu cyflwyno o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

**Cynigion ar gyfer newidiadau i Reolau Sefydlog**

5. Mae'r gofynion presennol ar gyfer dogfennau i gyd-fynd â Bil Cynulliad ar adeg ei gyflwyno wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 26 - Deddfau'r Cynulliad, ac yn cael eu hategu yn Rheolau Sefydlog 26A a 26B ar weithdrefnau Biliau Preifat a Biliau Hybrid. Ynghyd â'r gofyniad am ddatganiad gan y Llywydd ar gymhwysedd deddfwriaethol (Rheol Sefydlog 26.5), rhaid cynnwys y rhan fwyaf o ofynion eraill yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â phob Bil ar adeg ei gyflwyno.

6. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwnnw a manylion Asesiadau Effaith penodol eraill y mae'n ofynnol neu'n ddymunol iddynt gael eu cynnal cyn cyflwyno'r Bil (e.e. ar gydraddoldeb, y Gymraeg, effeithiau iechyd ac ati). Felly, cynigir y byddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i'r Asesiad Effaith ar

Gyfiawnder gael ei osod fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol hefyd, fel y nodir yn y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn Atodiad A. Gan fod yn rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gael ei osod, a bydd bob amser yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad ochr yn ochr â'r Bil, mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd y gofyniad statudol i gyhoeddi Asesiad Effaith ar Gyfiawnder yn cael ei fodloni'n awtomatig.

7. Yn ôl adran 110A fel y'i drafftiwyd, rhaid i'r Rheolau Sefydlog bennu ffurf a dull yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, ond mae'n ei adael i'r Cynulliad benderfynu sut i wneud hynny. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd ar hyn o bryd ar ffurf a dull asesiadau effaith rheoleiddiol eraill, ac mae'n fater i aelodau'r pwyllgor cyfrifol benderfynu a yw'r wybodaeth a roddwyd iddynt yn ddigonol er mwyn craffu'n briodol ar Fil Cynulliad. Felly, nid yw'r newidiadau a gynigir i'r Rheolau Sefydlog yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen er mwyn cydymffurfio â gofynion adran 110A, ac maent yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd. Fel y nodwyd uchod, bydd swyddogion yn cysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddatblygu fformat cyffredin ar gyfer Asesiadau Effaith ar Gyfiawnder. Disgwylir i'r cynnwys amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar natur y Bil dan sylw a'i effaith debygol ar gyfiawnder. Unwaith y bydd Asesiadau Effaith ar Gyfiawnder yn dechrau cael eu cyhoeddi ar gyfer Biliau, mater i'r pwyllgorau fydd gofyn am ragor o wybodaeth neu newid cyfeiriad os byddant o'r farn bod angen gwneud hynny.

## Camau i'w cymryd

8. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i Reolau Sefydlog 26, 26A a 26B yn ffurfiol ar 6 Mawrth 2018 a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynigion a nodir yn Atodiad B a ddaw i rym o 1 Ebrill 2018.

**Atodiad A**

**Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 26, 26A a 26B**

| RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad | | |
|---|---|---|
| | **Dogfennau i Gyd-fynd â Bil** | |
| 26.6 | Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:<br><br>(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;<br><br>(ii) nodi amcanion polisi y Bil;<br><br>(iii) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;<br><br>(iv) nodi'r ymgynghori, os o gwbl, a gafwyd ar y canlynol:<br><br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Cynigir ychwanegu pwynt ychwanegol (xii) at yr elfennau y mae'n rhaid eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, er mwyn cynnwys y gofyniad statudol ar gyfer Asesiad Effaith ar Gyfiawnder a nodir yn adran 110A newydd y Ddeddf. Gan fod rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gael ei osod, a bydd bob amser yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad ochr yn ochr â'r Bil, mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd y gofyniad i gyhoeddi Asesiad Effaith ar Gyfiawnder yn cael ei fodloni'n awtomatig.<br><br>Sylwer: Gwnaed cywiriad golygyddol i bwynt |

| | | |
|---|---|---|
| | (b) manylion y Bil, ac<br><br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);<br><br>(v) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;<br><br>(vi) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;<br><br>(vii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;<br><br>(viii) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai | (ix) i'w gwneud yn gliriach. |

| | | |
|---|---|---|
| | darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;<br><br>(ix) <u>nodi</u> unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;<br><br>(x) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | pŵer; ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);<br><br>(ix) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n nodi ei farn ef ar a yw’r tâl yn briodol neu beidio~~.~~; a<br><br>(xii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | |

**RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Cynulliad**

| | | |
|---|---|---|
| | **Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Preifat** | |
| 26A.13 | Ar yr un pryd ag y bydd hyrwyddwr yn cyflwyno Bil Preifat, rhaid hefyd iddo osod Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg a Saesneg y mae'n rhaid iddo:<br><br>(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Preifat, ym marn yr hyrwyddwr, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;<br><br>(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Preifat, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.45;<br><br>(iii) nodi amcanion y Bil Preifat;<br><br>(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Preifat ei mabwysiadu;<br><br>(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:<br><br>(a) amcanion y Bil Preifat a'r ffyrdd o'u | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Cynigir ychwanegu pwynt ychwanegol (vii) at yr elfennau y mae'n rhaid eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Preifat, er mwyn cynnwys y gofyniad statudol ar gyfer Asesiad Effaith ar Gyfiawnder a nodir yn adran 110A newydd y Ddeddf. Gan fod rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gael ei osod, a bydd bob amser yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad ochr yn ochr â'r Bil, mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd y gofyniad i gyhoeddi Asesiad Effaith ar Gyfiawnder yn cael ei fodloni'n awtomatig. |

| | | |
|---|---|---|
| | gwireddu; a<br><br>(b) manylion y Bil Preifat,<br><br>ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;<br><br>(vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Preifat ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil; a<br><br>(vii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | |

| **RHEOL SEFYDLOG 26B - Deddfau Hybrid y Cynulliad** | | |
|---|---|---|
| | **Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Hybrid** | |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.9 | Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Hybrid, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol, yn Gymraeg a Saesneg, y mae'n rhaid iddo:<br><br>(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Hybrid, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;<br><br>(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Hybrid, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.43;<br><br>(iii) nodi amcanion y Bil Hybrid;<br><br>(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Hybrid ei mabwysiadu;<br><br>(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:<br><br>(a) amcanion y Bil Hybrid a'r ffyrdd o'u gwireddu; a | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Cynigir ychwanegu pwynt ychwanegol (xiii) at yr elfennau y mae'n rhaid eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Hybrid, er mwyn cynnwys y gofyniad statudol ar gyfer Asesiad Effaith ar Gyfiawnder a nodir yn adran 110A newydd y Ddeddf. Gan fod rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gael ei osod, a bydd bob amser yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad ochr yn ochr â'r Bil, mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd y gofyniad i gyhoeddi Asesiad Effaith ar Gyfiawnder yn cael ei fodloni'n awtomatig.<br><br>Sylwer: Gwnaed cywiriad golygyddol i bwynt (x) i'w gwneud yn gliriach. |

| | | |
|---|---|---|
| | (b) manylion y Bil Hybrid, a<br><br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);<br><br>(vi) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;<br><br>(vii) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;<br><br>(viii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Hybrid ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;<br><br>(ix) yn achos Bil nad yw Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau | |

| | | |
|---|---|---|
| | cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai’r costau’n syrthio;<br><br>(x) <u>nodi</u> unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;<br><br>(xi) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath:<br><br>(a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer; | |

| | | |
|---|---|---|
| | (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); ~~a~~<br><br>(xii) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio~~.~~; a<br><br>(xiii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | |

**Atodiad B**

**RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad**

**Dogfennau i Gyd-fynd â Bil**

26.6 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(ii) nodi amcanion polisi y Bil;

(iii) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;

(iv) nodi'r ymgynghori, os o gwbl, a gafwyd ar y canlynol:

(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;

(b) manylion y Bil, ac

(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);

(v) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;

(vi) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;

(vii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;

(viii) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:

(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;

(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;

(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;

(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac

(e) ar bwy y byddai’r costau’n syrthio;

(ix) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;

(x) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath:

(a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;

(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac

(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);

(ix) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n nodi ei farn ef ar a yw’r tâl yn briodol neu beidio; a

(xii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.

**RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Cynulliad**

**Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Preifat**

26A.13 Ar yr un pryd ag y bydd hyrwyddwr yn cyflwyno Bil Preifat, rhaid hefyd iddo osod Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg a Saesneg y mae'n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Preifat, ym marn yr hyrwyddwr, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Preifat, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.45;

(iii) nodi amcanion y Bil Preifat;

(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Preifat ei mabwysiadu;

(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:

(a) amcanion y Bil Preifat a'r ffyrdd o'u gwireddu; a

(b) manylion y Bil Preifat,

ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;

(vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Preifat ei wneud (i'r graddau y mae

angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil; a

(vii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.

**RHEOL SEFYDLOG 26B - Deddfau Hybrid y Cynulliad**

**Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Hybrid**

26B.9 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Hybrid, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol, yn Gymraeg a Saesneg, y mae'n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Hybrid, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Hybrid, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.43;

(iii) nodi amcanion y Bil Hybrid;

(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Hybrid ei mabwysiadu;

(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:

(a) amcanion y Bil Hybrid a'r ffyrdd o'u gwireddu; a

(b) manylion y Bil Hybrid, a

(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);

(vi) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;

(vii) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;

(viii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Hybrid ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;

(ix) yn achos Bil nad yw Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:

(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;

(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;

(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;

(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac

(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;

(x) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;

(xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:

(a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;

(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac

(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);

(xii) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n nodi ei farn ef ar a yw’r tâl yn briodol neu beidio; a

(xiii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.